

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg | Welsh Language Standards Annual Report

Cyfnod Adrodd | Reporting Period 01.04.2018 – 31.07.2018

Cynnwys	Contents
Cyflwyniad	Introduction
1. Cyflawniadau	1. Achievements
1.1 Llywodraethu a rheoli	1.1 Governance and management
1.2 Staffio	1.2 Staffing
1.3 Aelodaeth	1.3 Membership
1.4 Dogfennau canllaw a pharatoi ar gyfer gweithredu	1.4 Guidance documents and preparation for implementation
1.5 Ymgorffori dwyieithrwydd wrth addysgu a dysgu	1.5 Embedding bilingualism in teaching and learning
1.6 Cyfieithu	1.6 Translation
2. Adroddiad cydymffurfio	2. Compliance report
2.1 Safonau cyflenwi gwasanaeth	2.1 Service delivery standards
2.2 Safonau llunio polisi	2.2 Policy making standards
2.3 Safonau gweithredol	2.3 Operational standards
2.4 Safonau cadw cofnodion	2.4 Record keeping standards

<p>Cyflwyniad</p> <p>Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales ydi'r unig Goleg Cymunedol Cenedlaethol a Mudiad Democrataidd ar gyfer addysg oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Fel Sefydliad Addysg Bellach (SAB) dynodedig, mae gennym ddyletswydd statudol i gydymffurfio â phob un o Safonau'r Gymraeg a osodwyd arnom o'r 1^{af} Ebrill 2018 ac a restrir yn ein hysbysiad cydymffurfio terfynol. Mae un o'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol arnom ni i gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 31ain Ionawr pob blwyddyn. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1af Ebrill 2018 hyd at 31ain Gorffennaf 2018 ac mae'n amlinellu ein cydymffurfiad, ein cyflawniadau a'n cynlluniau ar gyfer 2018-2019. Gosodwyd nifer o safonau ar 1 Hydref 2018 ac felly maent yn syrthio y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad hwn.</p> <p>Ein nod yw rhagori ar ofynion y safonau lle bynnag y bo'n bosibl ac i ddod yn ddarparwr rhagorol wrth gyflwyno gwasanaethau iaith Gymraeg. Ein nod yw gwneud hyn trwy ymgorffori dwyieithrwydd a'r cynnig gweithredol yn ein cynllunio strategol a gweithredol, a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.</p>	<p>Introduction</p> <p>Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales is the only National Community College and Democratic Movement for adult community learning in Wales. As a designated Further Education Institution (FEI), we have a statutory duty to comply with each one of the Welsh Language Standards imposed on us from the 1st April 2018 and listed in our final compliance notice. One of these standards requires us to publish an annual report by the 31st January each year. This first annual report covers the period 1st April 2018 to 31st July 2018 and outlines our compliance, our achievements and our plans for 2018-2019. A number of standards were imposed on the 1st October 2018 and therefore fall outside the reporting period for this report.</p> <p>Our objective is to exceed the requirements of the standards wherever possible and to become an exemplary provider of Welsh language services and delivery. We aim to do this through embedding bilingualism and the active offer in our strategic and operational planning and increasing the provision of Welsh medium and bilingual learning.</p>
---	--

1. Cyflawniadau

1.1 Llywodraethu a rheoli

- Rheolir Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales gan Gyngor o 20 unigolyn sy'n cynnig arweiniad cyffredinol a gwaith craffu. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfieithu ar y pryd ar gyfer eu cyfarfodydd fel y gellir eu cynnal yn ddwyieithog. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth yr iaith Gymraeg wedi'i gyflwyno i aelodau'r Cyngor.
- Sefydlwyd grŵp gweithredu safonau'r Gymraeg gyda chynrychiolaeth Cymru gyfan er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer gosod y Safonau. Datblygodd y grŵp gynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg ac adroddwyd yn rheolaidd i'r Cyngor, y tîm rheoli a'r staff ar gynnydd a chamau gweithredu angenrheidiol. Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg yw ein cofnod cydymffurfio cyfredol ac mae ar gael ar ein gwefan ynghyd â'n hysbysiad cydymffurfio terfynol a'n gweithdrefn gwyno
- **Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd** - Yn dilyn gosod y Safonau, sefydlwyd grŵp y Gymraeg a dwyieithrwydd fel un o'r grwpiau strategol sy'n cydlynu rheolaeth a llywodraethu o fewn Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Mae'r grŵp hwn yn goruchwylio pob agwedd ar ddatblygiad y Gymraeg a Dwyieithrwydd yn ein sefydliad yn ogystal â monitro cydymffurfiaeth â'r safonau.
- Mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn eitemau sefydlog ar ein hagenda tîm rheoli.

1. Achievements

1.1 Governance and management

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales is governed by a Council of 20 people who provide overall leadership and scrutiny. The Council has introduced simultaneous translation for their meetings so that they can be run bilingually. Welsh language awareness training has been delivered to Council members.
- We established a Welsh language standards implementation group with all Wales representation to plan and prepare for imposition. The group developed a Welsh Language Standards Implementation plan and reported regularly to Council, management team and staff on progress and action required. The Welsh Language Standards Implementation plan¹ is our current record of compliance and is available on our website together with our final compliance notice and our complaints procedure
- **Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd** - following imposition, a Welsh language and bilingualism group has been established as one of the strategic groups co-ordinating management and governance within Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. This group oversees all aspects of Welsh and Bilingualism development within our organisation as well as monitoring compliance with the standards.
- Welsh language and bilingualism are standing items on our management team agenda.

- Rydym yn rhagori ar y safonau a osodir trwy anfon pob gohebiaeth 'holl staff' mewnol gan y Cyngor, y Prif Weithredwr ac Adnoddau Dynol yn ddwyieithog.

Cynlluniau 18/19:

- Datblygu cynllun gweithredu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Cyflawni cynllun gweithredu Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd a fydd yn rhedeg o 01.08.18 - 31.07.19. Bydd hyn yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth gyda'r safonau a goruchwylio gweithrediad y cynllun gweithredu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i aelodau'r cyngor sydd eto i fynychu.

1.2 Staffio

- Yn ystod yr ailstrwythuro, gwnaethom greu swyddi allweddol i gefnogi cyflawni ein hamcanion Cymraeg a dwyieithog.
- **Derbynnydd Dwyieithog Cenedlaethol** - mae Gwen Richards, sydd wedi'i lleoli ym Mangor, yn allweddol i ddarparu ein gwasanaeth gweithredol rheng flaen i bob galwr ffôn a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth info@service. Mae Gwen hefyd yn cydlynu'r gwasanaeth cyfieithu.
- **Rheolwr Dwyieithrwydd** - mae Clare Grist yn gyfrifol am ddatblygu dwyieithrwydd sefydliadol a chydymffurfiaeth â'r safonau. Mae ystyried y Gymraeg a dwyieithrwydd wedi ei

- We exceed the imposed standards by sending out all internal 'all staff' correspondence from the Council, Chief Executive and HR bilingually.

Plans 18/19:

- To develop a Welsh medium and bilingual provision action plan.
- To implement the Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd action plan which will run from 01.08.18 – 31.07.19. This will include monitoring compliance with the standards and overseeing the implementation of the Welsh medium and bilingual provision action plan.
- To provide Welsh language awareness training to council members yet to attend.

1.2 Staffing

- During restructuring, we created key posts to support the achievement of our Welsh and bilingual objectives.
- **National Bilingual Receptionist** – Gwen Richards, who is based in Bangor, is key to providing our first line active offer to all telephone callers and those using our info@service. Gwen also co-ordinates the translation service.
- **Bilingualism Manager** – Clare Grist has responsibility for organisational bilingual development and compliance with the standards. Consideration of Welsh and bilingualism is

ymgorffori o fewn cynllunio strategol a gweithredol. Mae Clare hefyd yn rheoli'r gwasanaethau cyfieithu a derbyn.

- **Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg** - Dechreuodd Michelle Kerswell yn ei rôl uwch reoli newydd ar 1^{af} Mehefin 2018.

1.3 Aelodaeth

- Rydym yn sefydliad aelodaeth gyda strwythur o ganghennau lleol lle mae dysgwyr a changhennau yn cael rôl benodol ac unigryw wrth ddatblygu a thrafod darpariaeth leol gan gynrychioli'r sefydliad cyfan. Mae'r holl gyhoeddusrwydd a dogfennau ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol a fforymau rhanbarthol yn ddwyieithog ac mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

1.4 Dogfennau canllaw a pharatoi ar gyfer gweithredu

- Rydym wedi datblygu dogfennau canllaw gydag ystod eang o adnoddau cefnogol ar gyfer staff y swyddfeydd a thiwtoriaid.
- Ymwelodd y Rheolwr Dwyieithrwydd â phob tîm mewn swyddfeydd led led Cymru gan fynychu cyfarfodydd tiwtoriaid rhanbarthol a digwyddiadau er mwyn siarad â staff ac i ymgynghori ar ganllawiau ac adnoddau.
- Dosbarthwyd canllawiau drafft a therfynol i bob aelod staff.
- Hyrwyddwyd canllawiau trwy ymgyrch e-bost a phoster '*Wyt ti'n barod*'.
- Mae canllawiau ac adnoddau cefnogol ar gael ar yriant mewnol y sefydliad. Mae canllawiau ac adnoddau wedi'u datblygu hefyd ar gyfer y canghennau aelodaeth.

embedded in strategic and operational planning. Clare also manages the translation and reception services.

- **Curriculum and Welsh Medium Provision Manager** - Michelle Kerswell commenced this new senior management role on 1st June 2018.

1.3 Membership

- We are a membership organisation with a local branch structure where learners and branches have a proper and unique role in developing and negotiating local provision and representing the organisation as a whole. All publicity and documents for the AGM and regional forums are bilingual and there is simultaneous translation in meetings.

1.4 Guidance documents and preparation for implementation

- We have developed guidance documents with a wide range of supporting resources for office-based staff and tutors.
- The Bilingualism Manager visited all team offices across Wales and attended regional tutor meetings and events to speak to staff and to consult on guidance and resources.
- Draft and final guidance was circulated to each member of staff.
- Guidance was promoted through an email and poster '*Wyt ti'n barod*' campaign.
- Guidance and supporting resources are available on the internal global drive. Guidance and resources have also been developed for the membership branches.

<p>Cynlluniau 18/19:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddatblygu'r ardal Adnoddau Cymraeg ar yriant mewnol y sefydliad. <p>1.5 Ymgorffori dwyieithrwydd wrth addysgu a dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliodd Sgiliaith weithdy ar gyfer tiwtoriaid, Swyddogion Cyflawni Cwricwlwm (SCC) a rheolwyr ar draws Cymru i gychwyn y broses o ddatblygu tacsonomeg sefydliadol ar gyfer ymgorffori dwyieithrwydd o fewn addysgu a dysgu. Fe ymgynghorodd yr Uwch Swyddog Dwyieithrwydd ymhellach trwy siarad yn nigwyddiadau'r tiwtoriaid rhanbarthol ar ddiwedd y tymor gan gyfarfod â thiwtorïaid unigol a SCCau. • Datblygwyd cyfres o restrau geirfa yn benodol i bynciau i gefnogi tiwtoriaid, rhai ar gais tiwtoriaid unigol, e.e. ffotograffiaeth, celf a garddwriaeth. • Cyfieithwyd ystod eang o lyfrau gwaith a deunyddiau cwrs. <p>Cynlluniau 18/19:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar dacsonomeg sefydliadol i ffurfio rhan o arsylwi ffurfiol ar y broses monitor ansawdd addysgu a dysgu. • Datblygu adnodd ar gyfer ymgorffori dwyieithrwydd i diwtoriaid. • Parhau i ddatblygu'r ardaloedd Adnoddau Cymraeg ar y Rhwydwaith Addysgu a Dysgu a <i>Moodle</i>. 	<p>Plans 18/19:</p> <ul style="list-style-type: none"> • To continue to develop the Welsh Resource area on the internal global drive. <p>1.5 Embedding Bilingualism in teaching and learning</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliaith ran a workshop for tutors, Curriculum Delivery Officers (CDOs) and managers across Wales to start the process of developing an organisational taxonomy for embedding bilingualism in teaching and learning. The Bilingualism Manager consulted further by speaking at the end of term regional tutor events and meeting with individual tutors and CDOs. • We developed a series of subject specific vocabulary lists to support tutors, some at the request of individual tutors e.g. photography, art and horticulture. • We translated a wide range of workbooks and course materials. <p>Plans 18/19:</p> <ul style="list-style-type: none"> • To agree an organisational taxonomy to form part of the formal observation of teaching and learning quality process. • To develop an embedding bilingualism resource for tutors. • To continue to develop the Welsh Resource areas on the Teaching and Learning Network and Moodle.
--	--

<p>1.6 Cyfieithu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygwyd ein gwaith cyfieithu sefydliadol i wella effeithlonrwydd a chysondeb ac i osgoi oedi. • Sefydlwyd proses gyfeirio ar gyfer cyfieithu a chyfeiriad e-bost sefydliadol a weinyddir gan y Derbynnnydd Dwyeithog Cenedlaethol. • Penodwyd TROSOL fel ein prif gyfieithwyr yn ogystal â pharhau i ddefnyddio grŵp bach o gyfieithwyr llawrydd pan fo angen. • Fe grëwyd cronfa ddata a ffolder cyfieithu fel y gall timau led led Cymru gael gafael ar ddeunyddiau a gyfieithwyd. <p>Cynlluniau 18/19: Creu rôl cyfieithydd rhan amser sefydliadol er mwyn cefnogi datblygu adnoddau ac i fod yn llais sefydliadol cyson ar gyfer dogfennau strategol.</p>	<p>1.6 Translation</p> <ul style="list-style-type: none"> • We reviewed our organisational translation to make it more efficient and consistent and to avoid delay. • We set up an organisational translation email address and process, which is administered by the National Bilingual Receptionist. • We appointed TROSOL as our main translators as well as continuing to use a small group of freelance translators when required. • We created a translation database and folder so that teams across Wales can access translated materials. <p>Plans 18/19: To create a part-time in-house translator role to support the development of resources and a consistent organisational voice for strategic documents.</p>
---	--

<p>2. Adroddiad cydymffurfio</p>	<p>2. Compliance reporting</p>
<p>2.1 Safonau cyflenwi gwasanaeth</p>	<p>2.1 Service delivery standards</p>
<p>a) Gohebiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Derbynnnydd Dwyieithog Cenedlaethol yn cydlynu cyfieithu negeseuon a dderbynnir neu i'w hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog lle bo angen. • Rydym yn defnyddio ein neges 'cynnig gweithredol' - yn ein holl ohebiaeth. <p>Rydym yn annog a chroesawu gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb i'ch dewis iaith</p> <p>We encourage and welcome correspondence in Welsh and will respond to your language choice</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn cynnwys dolen i'n harolwg dewis iaith yn ein holl negeseuon e-bost a chynnal cronfa ddata dewis iaith. <p><u>Dewis Iaith Cyswllt Language Preference For Contact</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi cynnwys dewis iaith dysgwyr ar ein ffurflen gofrestru ac mae'r wybodaeth hon wedi'i mewnbynnu ar ein system EBS. • Rydym wedi cynhyrchu canllawiau manwl a chryno ar gyfer staff ynghyd â siartiau llif ac adnoddau. • Rydym yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr mewn gohebiaeth lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. 	<p>a) Correspondence</p> <ul style="list-style-type: none"> • The National Bilingual Receptionist coordinates translation of messages received or to be sent in Welsh or bilingually where required. • We use our 'active offer' message - in all our correspondence. <p>Rydym yn annog a chroesawu gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb i'ch dewis iaith</p> <p>We encourage and welcome correspondence in Welsh and will respond to your language choice</p> <ul style="list-style-type: none"> • We include a link to our language preference survey in all our emails and maintain a language preference database. <p><u>Dewis Iaith Cyswllt Language Preference For Contact</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • We have included learners' language preference on our enrolment form and this information is entered on our EBS system. • We have produced detailed and summary guidance for staff together with flowcharts and resources. • We use Welsh and English side by side in correspondence wherever feasible.

Cynlluniau 18/19

- Parhau i ddatblygu'r ardaloedd adnoddau Cymraeg ar y Rhwydwaith Addysgu a Dysgu a Moodle.
- I ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael yn deillio o brosiect ymchwil Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ar gofnodi dewis iaith.

b) Galwadau ffôn

- Crëwyd swydd Derbynnnydd Dwyieithog Cenedlaethol er mwyn gweithredu system ffôn cynnig gweithredol led led Cymru. Mae pob galwad allanol i'n prif rif ([03300 580845](tel:03300580845)) yn mynd i'n llinell ddwyieithog genedlaethol. Caiff galwyr eu cyfarch yn ddwyieithog a gofynnir iddynt ddal y llinell i siarad yn Gymraeg neu'n ddwyieithog neu i bwyso 1 am alwad Saesneg yn unig. Drwy wneud y cynnig gweithredol hwn, rydym yn canfod bod dros 30% o'n galwyr yn dewis defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn ein ffonio. Mae neges ffôn y peiriant ateb ar gyfer y llinell hon yn nodi y gellir gadael negeseuon yn Gymraeg.
- Mae galwadau i holl rifau ein swyddfeydd rhanbarthol hefyd yn mynd i'n llinell ddwyieithog genedlaethol, ac eithrio pan fydd rheolwyr yn dargyfeirio galwadau pan fydd staff sy'n siarad Cymraeg yn medru eu hateb.
- Rydym wedi cyhoeddi canllaw i staff ar ateb unrhyw alwadau i rifau llinell uniongyrchol yn ddwyieithog. Mae staff yn gallu trosglwyddo galwadau i'r Derbynnnydd Dwyieithog Cenedlaethol neu i staff sy'n siarad Cymraeg yn y swyddfeydd rhanbarthol os oes angen.
- Rydym wedi cynnwys galwadau ffôn yn y dewis iaith i ddysgwyr ar ein ffurflenni cofrestru ac ar ein harolwg dewis iaith.

Plans 18/19

- To continue to develop the Welsh resource areas on the Teaching and Learning Network and Moodle.
- To use any available resources arising from the Welsh Language Commissioner's research project on recording language choice.

b) Telephone calls

- We created the post of National Bilingual Receptionist in order to implement an active offer phone system across Wales. All external calls to our main number ([03300 580845](tel:03300580845)) go to our national bilingual line. Callers are greeted bilingually and asked to hold the line to speak in Welsh or bilingually or to press 1 for an English only call. By making this active offer we find that over 30% of our callers choose to use Welsh when they phone us. The answerphone message for this line states that messages can be left in Welsh.
- Calls to all our regional office numbers also go to our national bilingual line, except when diverted by managers when there are Welsh speaking staff to answer calls.
- We have issued guidance to staff on answering any calls to direct line numbers bilingually. Staff are able to transfer calls to the National Bilingual Receptionist or Welsh speaking staff in regional offices if necessary.
- We have included telephone calls in the learner language choice on our enrolment forms and on our language preference survey.

- Rydym wedi cynhyrchu canllaw, siartiau llif ac adnoddau gan gynnwys ffeiliau llais ar gyfer staff.
- Nid oes gennym safonau perfformiad ar gyfer galwadau ffôn nac unrhyw systemau ffôn awtomataidd.

Cynlluniau 18/19

- Er mwyn gweithredu ar y cyngor a dderbyniwyd gan ein Swyddog Cydymffurfiaeth ar 6.08.18 bydd angen i ni hefyd gynnwys datganiad i ddweud ein bod yn croesawu galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg pryd bynnag y byddwn yn cyhoeddi ein rhif ffôn.

c) Cyfarfodydd

- Rydym wedi llunio canllaw a siartiau llif i staff ar wahodd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a phryd y mae cyfieithu ar y pryd yn ofynnol.
- Rydym wedi creu proses archebu cyfieithu ar y pryd i gyfarfodydd a weinyddir gan y Derbynnnydd Dwyieithog Cenedlaethol.
- Cynhaliwyd cwrs gan *laith Cyf* i'n rheolwyr ar gadeirio cyfarfodydd dwyieithog.
- Rydym wedi diwygio ein gweithdrefnau cwyno a disgyblu i gynnwys y safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd.
- Rydym yn cynnal nifer o gyfarfodydd yn ein rhanbarth gogledd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog heb yr angen am wasanaethau cyfieithu ar y pryd.

Cynlluniau 18/19

- Llunio pecyn cymorth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd i gefnogi staff sy'n gwneud cyrsiau Cymraeg Gwaith.

- We have produced guidance, flowcharts and resources including voice files for staff.
- We do not have performance standards for phone calls or any automated telephone systems.

Plans 18/19

- To implement the advice received from our Compliance Officer on 6.08.18 that in addition to our active offer telephone system we also need to include a statement to say that we welcome calls in Welsh whenever we publish our telephone number.

c) Meetings

- We have produced guidance and flowcharts for staff on inviting individuals to use Welsh in meetings and when simultaneous translation is required.
- We have created a simultaneous translation booking process for meetings which is administered by the National Bilingual Receptionist.
- *laith Cyf* ran a course for our managers on chairing bilingual meetings in March 2018.
- We have amended our complaints and disciplinary procedures to include the standards relating to meetings and have provided guidance to staff.
- We run many meetings in our north region in Welsh or bilingually without the need for translation services.

Plans 18/19

- To produce a toolkit on using Welsh effectively in meetings to support staff undertaking Cymraeg Gwaith courses.

- Cynnal rhagor o hyfforddiant ar gadeirio a mynychu cyfarfodydd dwyieithog.
- Llunio templedi gwahodd i gyfarfodydd er mwyn safoni'r gwahoddiad i ddefnyddio'r Gymraeg a'r ymrwymiad i ddarparu cyfieithu ar y pryd lle bo'i angen.

ch) Cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau cyhoeddus, darlithoedd cyhoeddus, cyhoeddusrwydd a hysbysebu, graddio a seremonïau gwobrwyo

- Fel sefydliad sy'n darparu cyfleoedd dysgu o fewn cymunedau, nid ydym yn cynnal llawer iawn o ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus heblaw'r rhai sy'n gysylltiedig â chyrsgiau. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau, rhestrau gwirio a gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus. Rydym hefyd wedi cynhyrchu gwahoddiadau i siaradwyr a ffurflenni archebu cyfieithu ar y pryd.
- Rydym wedi cynhyrchu canllawiau, rhestrau gwirio a ffurflen asesu i'n canghennau aelodaeth ar gyfer darlithoedd cyhoeddus.
- Rydym yn hysbysebu ein fforymau rhanbarthol yn ddwyieithog, ac yn darparu cyfieithu ar y pryd gan sicrhau bod y cyfranogwyr yn gwybod fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae ein holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, arddangos a hysbysebion yn ddwyieithog. Darperir arweiniad a chynghor ar ddylunio dwyieithog yn ogystal â mynediad at gyfieithu.
- Rydym wedi datblygu canllawiau ar gyfer seremonïau graddio a gwobrwyo.

- To run more training on chairing and attending bilingual meetings and using Welsh effectively in meetings.
- To produce meeting invitation templates to standardise the invitation to use Welsh and the commitment to providing simultaneous translation where required.

ch) Public meetings, public events, public lectures, publicity and advertising, graduation and award ceremonies

- As an organisation which provides learning opportunities within communities, we run very few public events and meetings aside from those which are linked to courses. We have produced guidance, checklists and invitations for public events and meetings. We have also produced invitations for speakers and simultaneous translation booking forms.
- We have produced guidance, checklists and an assessment form for our member branches for public lectures.
- We publicise our regional forums bilingually, we provide simultaneous translation and ensure participants know they are welcome to use Welsh.
- All our publicity, display materials and advertising is bilingual. Guidance and advice on bilingual design is provided as well as access to translation.
- We have developed guidance on graduation and award ceremonies.

Cynlluniau 18/19

- Datblygu adnoddau ar gyfer seremonïau graddio a gwobrwyo.

d) Dogfennau a ffurflenni i ddysgwyr a'r cyhoedd

- Mae'r holl ddogfennau a ffurflenni ar gyfer dysgwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog, lle bynnag y bo modd. Rydym yn ceisio cyfyngu ar gynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yn cynnwys hyn yn ein canllaw arddull mewnol. Rydym yn sicrhau ein bod yn trin unrhyw ffurflenni a gynhyrchir yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un sail.

Cynlluniau 18/19

- Clustnodi dogfennau strategol a chyhoeddus i'n cyfieithydd mewnol lle bynnag y bo hynny'n bosibl i ddatblygu llais Cymraeg cyson.
- Datblygu geirfa sefydliadol o dermau i sicrhau cysondeb yn y defnydd o'r Gymraeg.

dd) Meddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg

- Rydym wedi darparu dolen i Cysgliad ar ein safle *Moodle*.

e) Cyfryngau cymdeithasol

- Rydym wedi adolygu ein defnydd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac wedi cyhoeddi canllawiau a chefnogaeth i staff i sicrhau bod yr holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r cyfryngau

Plans 18/19

To develop resources for graduation and award ceremonies.

d) Documents and forms for learners and the public

- All documents and forms for learners and the public are bilingual wherever possible or are produced in both Welsh and English. We try to limit the production of separate Welsh and English versions and include this in our internal style guide. We ensure that we treat any forms produced in Welsh and English on the same basis.

Plans 18/19

- To allocate strategic and public documents to our internal translator wherever possible to develop a consistent Welsh voice.
- To develop an organisational glossary of terms to ensure consistency in the use of Welsh.

dd) Computer software for checking spelling and grammar

- We have provided a link to Cysgliad on our Moodle site.

e) Social media

- We have reviewed our use of social media accounts and have issued guidance and given support to staff to ensure that all social media messages are published bilingually or in both Welsh and English. Social media is monitored to ensure

cymdeithasol yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth ac adborth yn cael ei roi i reolwyr ac aelodau staff os oes angen.

- Mae'r Derbynnnydd Dwyieithog Cenedlaethol yn darparu unrhyw gefnogaeth angenrheidiol wrth ymateb i negeseuon cyfryngau cymdeithasol a dderbynnir yn Gymraeg.

f) Arwyddion a hysbysiadau

- Rydym wedi llunio a chodi arwyddion dwyieithog newydd ers adolygu ein hunaniaeth sefydliadol a dod yn 'Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales'. Mae'r holl arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus parhaol a thros dro yn ddwyieithog. Rydym wedi datblygu canllawiau a thempledi ac rydym yn cynnig cefnogaeth gyda chyfieithu i alluogi hyn.
- Y Gymraeg sydd gyntaf ar ein harwyddion dwyieithog.

ff) Y Dderbynf

- Fel sefydliad, nid oes gennym unrhyw wasanaethau derbynfa ffurfiol. Mae staff wedi cael cyfarwyddyd ar drefnu apwyntiadau a chyfarch ymwelwyr.

g) Cymorth ariannol a gwahoddiadau i dendro

- Rydym wedi diweddarau ein proses a'n ffurflenni Cronfa Ariannol Wrth Gefn i sicrhau bod dogfennau ar gael yn Gymraeg, a gellir eu cyflwyno a'u prosesu yn Gymraeg ar yr un sail ag yn Saesneg.
- Rydym wedi adolygu a diweddarau ein polisi caffael a'r broses gwahoddiad i dendro er mwyn sicrhau y gellir ei gwblhau ar yr un sail yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym wedi derbyn ac yn ymdrin yn llwyddiannus â thendrau Cymraeg.

compliance and feedback given to managers and staff members if necessary.

